



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Cyfarwyddyd ar Ddeallusrwydd Artiffisial (Dysgu ac Addysgu)


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg | This document is available in Welsh and English

Ionawr 2024

Introduction

Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd datblygiad Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchol a'r mynediad torfol iddo, a'i botensial i effeithio ar addysg uwch, yn cynnwys dysgu, addysgu, asesu a mynediad. Mae Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchol yn offeryn sydd eisoes wedi cael effaith fawr ar ddiwydiant, gwaith a chymdeithas, a bydd yn parhau i wneud. Wrth baratoi am y dyfodol, mae'r Brifysgol yn cydnabod yr angen i'w myfyrwyr a staff allu ymwneud yn effeithiol, yn foesebol ac yn briodol â Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchol.

Bydd cyflymder ac amrywiaeth y datblygiad posibl o offer Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchol yn gofyn am drafodaethau gonest a chreadigol rhwng yr holl randdeiliaid mewnol ac allanol. Bydd y Brifysgol yn cefnogi ac yn hwyluso deialog a thrafodaeth rhwng rhanddeiliaid drwy fodel o ddysgu, mabwysiadu, ac addasu atebion o ran Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchol, gyda'r bwriad o ddatblygu rhywbeth o'r fath yn annibynnol yn y dyfodol.



Bydd y Brifysgol yn gwneud y canlynol:

1. Ystyried, annog a chefnogi datblygu, neu fabwysiadu, atebion Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchol i wella effeithlonrwydd, mynediad a chymorth i fyfyrwyr a staff.
2. Darparu cyfleoedd dysgu ar gyfer staff a myfyrwyr i gefnogi llythrennedd Deallusrwydd Artiffisial, dealltwriaeth o ystyriaethau moesegol ac eraill mewn cysylltiad â deallusrwydd artiffisial, a datblygiadau posibl o ran deallusrwydd artiffisial, a'r defnydd posibl ohono, yn y dyfodol.
3. Bod yn ystywyth o ran addasu ei pholisïau a'i gweithdrefnau mewn ymateb i'r cyflymder y mae offer deallusrwydd artiffisial yn datblygu ac y mae cynnyrch newydd yn ymddangos er mwyn sicrhau uniondeb academiaidd a'r defnydd moesegol a phriodol o ddeallusrwydd artiffisial.
4. Ystyried, annog a chefnogi unrhyw newidiadau yn y cwricwlwm a'r asesu er mwyn rhoi ystyriaeth i'r defnydd o dechnoleg Deallusrwydd Artiffisial, a'i gynnwys.
5. Cefnogi mynediad teg i offer Deallusrwydd Artiffisial i staff a myfyrwyr.

Disgwyllir y bydd staff yn gwneud y canlynol:

1. Cefnogi a chymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu a gynigir i gefnogi llythrennedd Deallusrwydd Artiffisial, dealltwriaeth o ystyriaethau moesegol ac eraill mewn cysylltiad â deallusrwydd artiffisial, a datblygiadau posibl o ran deallusrwydd artiffisial, a'r defnydd posibl ohono, yn y dyfodol.
2. Ymgysylltu'n gynnar â myfyrwyr er mwyn sicrhau eu bod yn eglur, o leiaf, ynghylch disgwyliadau'r sefydliad a'r cwrs unigol ynghylch y defnydd o offer Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol.
3. Cefnogi ac arwain myfyrwyr tuag at lythrennedd Deallusrwydd Artiffisial, dealltwriaeth o ystyriaethau moesegol ac eraill mewn cysylltiad â deallusrwydd artiffisial, a datblygiadau posibl o ran deallusrwydd artiffisial, a'r defnydd posibl ohono, yn y dyfodol.
4. Cynnig a gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol yn y cwricwlwm a'r asesu er mwyn rhoi ystyriaeth i'r defnydd o dechnoleg Deallusrwydd Artiffisial, a'i gynnwys.
6. Cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau uniondeb academiaidd a'r defnydd moesegol a phriodol o ddeallusrwydd artiffisial, yn unol â pholisïau a chyfarwyddyd y Brifysgol.

Disgwyllir y bydd myfyrwyr yn gwneud y canlynol:

1. Cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu a gynigir i gefnogi llythrennedd Deallusrwydd Artiffisial, dealltwriaeth o ystyriaethau moesegol ac eraill mewn cysylltiad â deallusrwydd artiffisial, a datblygiadau posibl o ran deallusrwydd artiffisial, a'r defnydd posibl ohono, yn y dyfodol.
2. Sicrhau uniondeb academiaidd eu gwaith a'r defnydd moesegol a phriodol o ddeallusrwydd artiffisial, yn cynnwys cydnabod bod y Brifysgol yn ystyried mai camymddwyn academiaidd yw ceisio honni mai'u gwaith eu hun yw cynnwys a gynhyrchwyd drwy ddeallusrwydd artiffisial, pan nad yw hynny'n cael ei ganiatáu'n benodol.

Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol mewn Asesiadau

Dylai pob arweinydd modwl ystyried beth yw'r lefel gywir o gymorth Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i'r asesiad penodol. Drwy ystyried yr opsiynau isod, a beth sydd orau i'r dysgwyr a'r asesu yn y modwl, bydd yr arweinydd modwl yn dynodi'r defnydd(iau) priodol o Ddeallusrwydd Artiffisial ymhob asesiad. Bydd yr arweinydd modwl yn sicrhau bod y myfyrwyr yn gwybod mewn da bryd, ac y caiff cyfarwyddyd priodol ei ddarparu ar eu cyfer.

YMCHWIL	Ar gyfer yr aseiniad hwn, gallwch ddefnyddio AI Cynhyrchiol i roi cymorth i chi mewn ymchwil a dadansoddi data.
STRWYTHUR	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i'ch cefnogi wrth strwythuro eich gwaith, yn cynnwys llunio strwythur dadl drafft, dynodi adrannau a phenawdau ac ati.
PRAWF DDARLLEN	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio AI Cynhyrchiol i wirio eich testun/creadigaeth eich hun am wallau gramadegol a chystrawennol, yn cynnwys aralleirio eich gwaith.
YSGRIFENNU	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i greu testun i'w gyflwyno.
CREADIGOL	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i greu deunyddiau creadigol, megis delweddau .
RHAGLENNU	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i greu a gwirio cod.
DIM	Ar gyfer yr asesiad hwn, ni chaniateir i chi ddefnyddio unrhyw fath o gymorth drwy Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol. Mae hyn yn cynnwys cymorth ymchwil, cymorth strwythur, cymorth ysgrifennu / prawf ddarllen a chymorth creadigol.

Mae'r rhan o'r Defnydd a Ganiateir o Ddeallusrwydd Artiffisial – Canllaw Cyffredinol i Fyfyrwyr yn nodi defnydd a ganiateir o AI sy'n berthnasol i'ch astudiaethau mewn termau cyffredinol, gan gynnwys defnydd cyffredinol a ganiateir o AI ar gyfer dibenion asesu.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David